


papur



priordy



**IESU, IESU, 'RWYT TI'N DDIGON,
'RWYT TI'N LLAWER MWY NA'R BYD;
MWY TRYSORAU SY'N DY ENW
NA THRYSORAU'R INDIA I GYD:
OLL YN GYFAN
DDAETH I'M MEDDIANT GYDA'M DUW.**

**Wiliam Williams (Pantycelyn) (1717-1791)
Caneuon Ffydd: 320**

*Dewiswyd gan David Lewis
Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn*

**Rhifyn 336
PAPUR MEDI 2020**


Cyfarchiad gan ein Gweinidog

Ysgwyd llaw

HELO BAWB. Byddai'n dda medru'ch croesawu'n ôl wedi gwyliau'r haf, ond gan nad ydym wedi bod yn bell iawn, yr unig beth fedra i ei wneud yw'ch croesawu chi i rifyn Medi o Bapur Priordy!

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Alun, Elinor Wyn a Tudur Dylan am arwain oedfa'r un yn ystod mis Awst er mwyn i mi gael bach o seibiant. Gwych iawn fel arfer.

Rydym yn dod allan o'r cyfnod clo'n ara bach ac yn mynd i fentro cyfarfod yn y capel ar 13 Medi. Fe fydd hi'n wahanol iawn arnom ond, ys dywed ambell un, 'mae pob newid yn change'!



Rydym wedi hen gyfarwyddo erbyn hyn â rheolau pellhau cymdeithasol ac eto, wrth ymweld ag ambell fan yn ddiweddar, mae lle i amau a yw pawb yn ymwybodol ohonyn nhw! Daeth yr arfer newydd hwn o fyw'n her i ni i gyd. Mae pethau ynglŷn â'r pellhau cymdeithasol rwy'n eu cael yn eithriadol o anodd. Rwy'n gweld eisiau rhoi cwtsh i bobl ac rwy'n gwybod y bydd



hi'n anodd iawn arna i wrth weld plant yr Ysgol Sul unwaith eto ar ôl cymaint o amser! Rwy'n dod o Gwm Tawe lle mae pobl yn cwtsio hyd at fogi bron!! Os nad oes modd cwtsio, mae rhaid i mi ddweud fy mod yn ei chael hi'n eithriadol o anodd hefyd i atal rhag ysgwyd llaw ag eraill.

Rwy'n teimlo nad wyf yn ymddwyn yn urddasol rywfodd - mae hi mor annaturiol i beidio ag estyn llaw, er enghraifft mewn angladd.

Rydyn ni'n ysgwyd llaw wrth gyfarfod, wrth gyfarch, wrth ffarwelio, wrth ddiolch, wrth longyfarch, wrth gytuno, wrth gydymdeimlo ac fel arwydd o ewyllys da ym myd chwaraeon, Mae'n arwydd o barch a chydraddoldeb.



Mae ambell ysgydwad llaw wedi creu hanes er enghraifft, yr

ysgwyd llaw a fu rhwng Kim Jong-un a Moon Jae-in ddiwedd Ebrill 2018. Dyna oedd y tro cyntaf i Ogledd Corea a De Corea gyfarfod mewn heddwch ar y ffin ers iddynt ddod yn elynion yn dilyn y Rhyfel Coreaidd ym 1953.



Cofiw'n hefyd am yr ysgwyd llaw hanesyddol rhwng Nelson Mandela a chapten tîm rygbi De Affrica, Francois Pienaar, adeg eu buddugoliaeth yn nhwrnamaint



Cwpan Rygbi'r Byd ym 1995 - ysgwydwyd llaw symbolaidd ar ddiwedd y gêm ac apartheid wedi bod yn fur rhwng y du a'r gwyn.

Beth wnawn ni felly yn lle ysgwyd llaw? Wel, gallwn wisgo gwên a chodi llaw!

Er na fedrwn ysgwyd llaw â'n gilydd, does dim yn ein hatal rhag rhoi'n dwy law at ei gilydd mewn gweddi. Does dim unrhyw ddrwg na pheryg mewn gwneud hynny. Yn wir, ein braint yw rhoi'n dwy law ynghyd.



DWY LAW yn erfyn sydd yn y darlun.

Gweddiwn

Wedi'r Cloi mawr....

Arglwydd,
wrth i'r cloi mawr ddod i ben;
wrth i deuluoedd gwrdd a chofleidio;
wrth i'r traethau a'r brynau brysuro;
wrth i fusnesau fasnachu a gwasanaethu;
helpa ni i gamu allan mewn ffyrdd newydd,
ffyrdd fydd yn cyfrannu at harddwch a chyfiawnder
a bywyd ein byd a'i bobl i gyd.

Amen

Gweddi gan Gymorth Cristnogol



Mis Medi	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 18: 15-20
Wythnos 2	Mathew 18: 21-35
Wythnos 3	Mathew 20: 1-16
Wythnos 4	Mathew 21: 23-32

BORE COFFI MACMILLAN MAS TU FAS

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 25 Medi 2020

Maes Parcio'r Cwins, Abergwili

9.30 tan 12.00

Mynediad am ddim



Y gobaith yw cynnal y Bore Coffi yn yr awyr agored, Os



bydd y tywydd yn anffafriol bydd lle i sawl un y tu mewn drwy barchu rheolau pellter cymdeithasol a chyfyngu ar niferoedd. Bydd lle i barcio i bawb a gall y rhai sy'n

dymuno hynny dderbyn coffi / te a chacen gennym yn eu ceir.

Ni fydd Stondin Gacennau eleni ond bydd Raffl a Stondin Jam a Siytni fel arfer.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich help ac unrhyw gyfraniad, cysylltwch ag Alison Parsons (07860 781148), os gwelwch yn dda

CROESO'N ÔL!



Annwyl bawb

**Rydym yn edrych ymlaen at ailagor y capeli ar
Ddydd Sul 13 Medi. Bydd oedfa yn y Priordy am 10, Bancyfelin
am 1.30 a Cana am 3.**

**Oedfa gymharol fer fydd yr oedfa gyntaf ac o natur gwahanol i'r
arfer. Mae'r cyfnod hwn wedi rhoi cyfle arbennig i ni feddwl yn
fwy creadigol am yr addoliad. Gan nad oes modd cynnal yr Ysgol
Sul ar hyn o bryd, fe fydd yr oedfa'n addas i bawb o bob oed.**

**Fwy na thebyg bydd rhaid i chi eistedd mewn sedd wahanol i'r
arfer gan ein bod wedi gorfod cau sawl sedd er mwyn diogelu
pellter cymdeithasol. A phawb i aros yn eu seddau ar ddiwedd yr
oedfa os gwelwch yn dda. Bydd y diaconiaid / blaenoriaid yn
dweud wrthyhch pryd i adael - eto oherwydd bod angen sicrhau
pellter cymdeithasol. Cewch gyfle i gael sgwrs â'ch gilydd y tu
allan i'r capel!**

**Bydd y tai bach ar gael ar gyfer argyfwng yn unig! Os byddwch
yn eu defnyddio, a wnewch chi eu glanhau ar eich hôl os
gwelwch yn dda. Eto, bydd nwyddau glanhau yno ar eich cyfer.**

**Yn edrych ymlaen yn fawr iawn at eich gweld. Byddwch yn gwbl
ddiogel gan ein bod wedi paratoi'r capeli'n drylwyr gan ddilyn y
canllawiau priodol. Os nad ydych yn teimlo'n ddigon hyderus i
fentro allan, fe fyddwn yn deall yn iawn.**

**Os ydych yn bwriadu dod, a wnewch chi gyrraedd y capel mewn
da bryd os gwelwch yn dda, gan y bydd rhaid i bawb fynd i mewn
i'r capel un ar y tro (ar ôl golchi dwylo'r tu allan ble bydd hylif
diheintio ar eich cyfer).**

Cofion gorau

Beti-Wyn

GWASANAETHAU DIGIDOL YR OFALAETH

Mis Gorffennaf



Dydd Sul 5 Gorffennaf 2020

Roedd yr Oedfa Gymun yng ngofal ein Gweinidog ac Elin Wyn. Darllenodd Elin hanes creu Gardd Eden yn Llyfr Genesis. Cyfeiriodd ein Gweinidog at gyfoeth y gyfrol *Cymru - Y 100 Lle i'w Gweld Cyn Marw* gan yr hanesydd John Davies Ychwanegodd dri lle arall y dylen ni fel Cristnogion eu cofio yn ein calonnau, sef (i) Gardd, gan gyfeirio at Ardd Eden lle gosodwyd dyn gan Dduw i'w thrin a'i chadw, (ii) Tref, gan gyfeirio at dref gyffredin Bethlehem lle ganed Iesu, Gwaredwr y Byd a (iii) Bryn, sef Bryn Calfaria, y domen sbwriel lle bu Iesu farw droson ni. Bu ymweld â'r tri lle hyn a'u trafod yn ystod y myfyrdod yn arweiniad pwrpasol ar gyfer cydgyrffuno dan ofal Beti-Wyn gyda chymorth Elin Wyn.

Dydd Sul 12 Gorffennaf 2020

Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein Gweinidog. gyda chymorth, Marlene Jones (Cana), Carys Morgans (Y Priordy) (Darlleniad - sef 1 Corinthiaid 12) , Tomos a Carwyn Axford, Lucy Jones (Y Priordy) ac Angharad Richards (Bancyfelin) (Gweddi), Symbylwyd myfyrdod ein Gweinidog gan ddelwedd yr Apostol Paul yn ei Lythyr at y Corinthiaid lle mae'n esbonio mai nid un aelod yw'r corff ond llawer. Mae'r corff hwn yn nhermau'r eglwys a'r byd yn cael ei nodweddu gan ddibyniaeth aelodau ar ei gilydd, cyfrifoldeb am ei gilydd a chariad at ei gilydd. Roedd hi'n neges amserol iawn i ni yng nghyfnod y clo mawr.

Dydd Sul 19 Gorffennaf 2020

Cyflwynwyd y gwasanaeth gan ein Gweinidog gyda chymorth y Dr Eirian Thomas (Bancyfelin) (Salm 100 - *I ddiolch*), Bethan James (Cana) (3 Mathew – *Pregethu Ioan Fedyddiwr*). y Dr Llinos Roberts (Ioan 6:59-70 - *Geiriau Bywyd Tragwyddol*), Jona Marks, Erin Fflur Roderick (Y Priordy) (Gweddi) ac yna Mac (Y Priordy) yn cloi (Gweddi gan Gymorth Cristnogol). Yn ei myfyrdod bu'n Gweinidog yn trafod fel mae poblogrwydd yn gallu troi'n amhoblogrwydd, Digwyddodd hynny yn achos Iesu pan ddechreuodd bregethu'n fwy penodol a heriol dros hawliau a gofynion Duw a beirniadu safonau moesol ac ysbrydol ei wrandawyr a dangos diddordeb mewn pobl a ystyrrid yn rhai amharchus. Nid ennill cymeradwyaeth y byd yw'r cymhelliad neu'r ysgogiad i'r Cristion weithredu heddiw ychwaith ond

bod yn ffyddlon i Grist a groeshoeliwyd gan y byd. I'r ffyddlondeb hwnnw rydyn ni'n cael ein galw. Byw yng nghwmni Iesu a dysgu oddi wrtho ac am ei ffordd - ffordd cariad a thrugaredd, cyfiawnder a thagnefedd, maddeuant a chymorth. Mae Iesu wedi addo bod gyda ni ar y daith hon - yn ein harwain, ein nerthu a'n gwrolï.

Dydd Sul 26 Gorffennaf 2020

Yn cynorthwyo'n Gweinidog yn y gwasanaeth hwn roedd Peter Hughes Griffiths (Darlleniad: Ioan15:1-15 – *Y Wir Winwydden*) ac Elin Wyn (Gweddi). Soniodd ein Gweinidog yn ei myfyrdod pa mor bwysig yw teulu a ffrindiau i bob un ohonom. Arweiniodd hyn at drafod pwy oedd ffrindiau Iesu. Pobl gyffredin Palesteina oedd y rhain a byddai Iesu'n hoff iawn o'u cwmni. Beth oedd ganddyn nhw i'w gynnig i Iesu, meddech chi? Wel, nhw eu hunain, eu cariad a'u teyrngarwch. A dyma ofyn wedyn beth welodd ei ddisgyblion yn Iesu? Mae'r ateb yn syml - ystyr ei fywyd a rheswm ei fyw. Fu bywyd ddim yr un peth iddyn nhw wedyn. Mae Iesu hefyd yn barod i gynnig yr un cyfeillgarwch a gobaith am fywyd newydd i bob un ohonon ni heddiw.

Mis Awst

Dydd Sul 2 Awst 2020

Roedd yr Oedfa Gymun yng ngofal ein Gweinidog ac Elin Wyn. Mae'r wythnos gyntaf ym mis Awst yn wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol fel arfer ond roedd rhaid bodloni ar yr Eisteddfod AmGen am eleni! Cydiodd ein Gweinidog yn y gair Eisteddfod yn ei myfyrdod a'r ystyron sydd iddo, sef eisteddfan yn wreiddiol a gŵyl yn ddiweddarach. Gŵyl i'r genedl yw'r eisteddfod a chawsom ein hatgoffa mai pobl sy'n gwneud cenedl - pobl ag atgofion a gobeithion cyffelyb. Rhaid diogelu cof y genedl a'r iaith sy'n gyfrwng i bontio a throsglwyddo'n hatgofion a'n gobeithion o'r naill genhedlaeth i'r llall. Mae cofio'n air allweddol yn y Beibl hefyd a thrwy ganiatáu eisteddfa i Dduw ynon ni y down i wybod a chofio pwy ydyn ni mewn gwirionedd a'r hyn a fwriadwyd ar ein cyfer yn y byd. Mae'r Efengylau'n adrodd hanes y Swper Olaf neu Swper yr Arglwydd lle bwytdodd Iesu fara a gwin a dweud wrth y disgyblion am wneud yr un peth er cof amdano. A chawsom ninnau ar derfyn y myfyrdod wahoddiad i wneud hyn hefyd, gyda'r elfennau wedi'u paratoi gennym ar ein haelwydydd unigol ymlaen llaw. Bu'n ddechrau da i fis newydd.



Dydd Sul, 9 Awst 2020

Cyflwynwyd y gwasanaeth gan ein Gweinidog a chymerwyd rhan gan Alison Parsons (Darlleniad – Mathew 6:19-34) ac Alun Charles (Myfyrdod a Gweddi). Trafodwyd yr hen normal a'r normal newydd yn y myfyrdod a tharddiad y gair normal, sy'n dod o norm neu norma yn Lladin, sef sgwaryn saer, offeryn ar lun T neu L i sicrhau bod rhywbeth yn sgwâr-onglog neu'n syth, hy safon neu batrwm o gywirdeb. A dyma sydd wrth wraidd normal sydd, mewn iaith bob dydd, yn golygu cyfartalog, arferol, nodweddiadol. Tra bo normau'r byd yn aml yn gyfnewidiol mae norm y Beibl yn gwbl sefydlog - Duw yn Iesu. Fe yw sgwaryn y saer. Fe yw'r llinyn mesur. Ac mae Iesu'r Norm yn galw arnom i osod Duw yn flaenaf yn ein bywydau ac i ddod yn Grist debyg. Dyma yw'r allwedd i fywyd cyfoethocach a mwy ysbrydol ac i'r rhodd o fywyd tragwyddol.

Dydd Sul, 16 Awst 2020

Roedd y gwasanaeth yng ngofal Adrian Evans (Darlleniad - Llyfr y Pregethwr 3:1-11), Catrin Gwyn (Gweddi), Elinor Wyn Reynolds (Myfyrdod) yn dilyn Cyflwyniad gan ein Gweinidog. '*Amser i bopeth*' oedd testun y darlleniad a holwyd yn y myfyrdod sut ydyn ni'n defnyddio'n hamser yn ystod yr haf gwahanol hwn pan nad ydym yn crwydro ymhell o'n cartrefi ar ein gwyliau. Esboniwyd i ni fod fod sawl ffordd o deithio o gwmpas y byd y dyddiau hyn heb symud o'n cartrefi hyd yn oed, drwy lyfrau a rhyfeddod technoleg, er enghraifft, Mae modd i ni hefyd fwynhau pethau bychain gwahanol nos a dydd o fewn ein milltir sgwâr a chael ein hysbrydoli o'r newydd a'n hadfywio. Roedd Elinor Wyn, er enghraifft, yn ystyried treulio o leiaf un noson mewn pabell dan y sêr yn yr ardd! Yn sicr bydd yr haf hwn yn aros yn ein cof am byth. Cawsom ein hannog i wneud pethau bychain da heb grwydro ymhell ac i edrych yn wahanol ar y byd. Fe wyddom y daw'r amser hwn i ben gan nad oes dim yn aros yr un peth. Stad o newid yw bywyd. Tybed sut byddwn ni'n edrych yn ôl ar yr haf hwn – gyda rhyddhad fod y cyfnod drosodd neu'n hiraethus am y cyfnod pan ddaeth y byd i stop? Amser a ddengys!

Dydd Sul, 23 Awst 2020

Yn cymryd rhan yn y gwasanaeth roedd ein Gweinidog (Cyflwyniad a Gweddi), Jayne Woods (Darlleniad - Ioan 20: 11-18 – *Iesu'n ymddangos i Mair Magdalen*) a Tudur Dylan Jones (Myfyrdod). Yn y myfyrdod clywsom am gyfres o hen luniau sy'n rhan o gasgliad

Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Mair Magdalen a Iesu sydd yn un o'r lluniau hyn ar yr union eiliad mae Mair yn camgymryd Iesu am y garddwr. Mae'r llun yn ein hatgoffa o gynnwys y darn darllen. Fel y gwyddom, mae gardd yn chwarae rhan bwysig yn y Beibl – o Ardd Eden i Ardd Gethsemane. Mae'r cyfnod clo hefyd wedi rhoi cyfle i lawer ohonon ni roi mwy o sylw i'n gerddi ac i ystyried yn ogystal beth mae'r ardd yn gallu'i ddysgu i ni am fywyd. Clywson ni am lawer o'r gwersi hynny, a deall hefyd sut mae gwastraff heddiw'n gallu troi'n wrtaith yfory ac fel mae cyfuniad o law a heulwen yn gwneud i'r ardd weithio. Mae'n bwysig i ni sylweddoli fod llawer mwy i ardd na llong lle o flodau hardd! Efallai i Fair gamgymryd Iesu am arddwr ond dyna beth yw Iesu mewn gwirionedd - garddwr sy'n gwybod yn iawn fod angen iddo baratoi a gofalu am y 'planhigion' sydd yn ei ardd a pharhau i wneud hynny.

Dydd Sul 30 Awst 2020

Roedd y gwasanaeth hwn ar Sul Gŵyl y Banc yng ngofal ein Gweinidog. Yn ystod ei myfyrdod cawsom wybod mai llonyddwch, tawelwch a hedd y mynydd yn hytrach na bwrlwm traeth glan-y-môr sy'n apelio fwyaf ati wrth ymlacio ar wyliau. Wedi dweud hynny, mae crwydro'r glannau, yn enwedig Llwybr yr Arfordir, yn gallu rhoi mwynhad mawr iddi hefyd. Ac wrth wneud hynny yng Ngheredigion yn ddiweddar, gan ddechrau yn Llangrannog, oedodd wrth y cerflun efydd trawiadol o'r Sant Celtaidd Crannog sy'n sefyll ar y codiad tir uwchlaw'r pentref a chael ei hysbrydoli. Lluniwyd y cerflun arbennig hwn gan Sebastien Boyesen, un o drigolion y pentref. Mae Crannog yn y cerflun yn cario Cloch a Ffon a Beibl gyda Chroes mewn ysgrepan ar ei gefn. Tynnodd Beti-Wyn wersi o'r symbolau hyn gan ein hannog ni, wrth gloi, fel Crannog gynt, i fynd rhagom ar ein pererindod drwy'r byd heddiw yn enw Crist gyda Ffon Ymarferoldeb yn ein llaw, Cloch yr Efengyl i darfu ar y byd a'r Groes a Gair Duw i'n cynnal.

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

Y PARCHEDIG ROSAN SAUNDERS

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

TORRI GWALLTAU!



Ie, 'Gwallter' yw fy enw,
A barbwr ydw i,
Rwy'n dod o Ben Moel Famau,
Ces groeso gyda chi.
Ces gontract yng Ngorffennaf
I ddod i dorri gwallt
Pob aelod Y Priordy
Os oedd eu crop fel gallt!

I Abwgwili'n gynta',
A wir, mae yn beth syn,
Ond braf yw cael cyhoeddi
Nad yw ein Beti'n wyn
Fel Alun y golygydd
A'i wallt fel eira mân,
Mae'n biti wir ei dorri
A hwnnw'n dwff mor lân.

'Sdim pwrpas mynd i Brithdir
At Gareth wedodd rhai,
Na Des yng Nghoedlan Penbryn
Heb os nac oni bai!
'Sdim ishe wasto amser,
'Sa'i ishe bod yn gas,
Mae mwy tu fewn i benne
Y ddau na sy' tu fas!

Fe alwes gyda Sulwyn,
Yr ateb ydoedd 'Na',
Ma' shishwrn mowr 'da Glenys –
Ma' hynny'n ddigon da!
Cas hithe eitha gropad
A lliwio'i gwallt yn ddu;
Ro'dd Sulwyn wedi meddwl
Bod gwraig arall yn y tŷ!

Fe fues i am orie
 'Da Peter yn Waundew,
 Ces shafu'i frest a'i goese,
 Mae bellach yn ddi-flew
 'R'un peth â Tudur Dylan
 Heb flewyn ar ei ben,
 Nid fel y mwng mawr melyn
 Sa'r boi yn Nymbyr Ten.

Ma' problem 'da'r menywod
 Sy'n fwy na perm a trim,
 Pan fod eu gwallte'n tyfu,
 Ie, "hyn sydd ofid im!"
 Rhaid mynd i'r dre i brynu
 Stwff speshal iawn yn Boots
 A spreio hwnnw wedyn
 I gwato lliw y rŵts!

A ga i nawr awgrymu
 Eich bo chi o hyn mas
 Yn torri gwallte'ch gilydd,
 So hyn yn fusnes cas.
 Fe ddof i i'r Gymdeithas,
 I'r Festri cyn bo hir
 I ddangos shwt i dorri
 Eich gwallte – dof yn wir!


Fe allwn ni ymarfer
 Trwy dorri gwallt Dai Lloyd
 A Malcolm a Wyn Tegryn,
 Ni welwyd dim erioed
 Fel hyn yn Y Priordy,
 A nawr, bydd rhaid 'chi ddallt
 Bydd rhan o'r Festri wedyn
 Yn Salon i Drin Gwallt.

Ap Shishwrn



Diolch yn fawr iawn i Ap Shishwrn.
Does dim gwobr am ddyfalu enw go iawn y bardd ond mae'n
berson allweddol ym myd diwylliant a chwaraeon a thwristiaeth
ar Gyngor Sir Gâr!

OEDFA YN EIN CEIR



ADDOLI WRTH Y LLYW

GOLYGFA wahanol iawn oedd yng Nghlwb Rygbi'r Cwins yn Abergwili ar brynhawn Sul olaf mis Gorffennaf. Nid gêm rygbi oedd yno'r tro hwn ond rhywbeth go arbennig serch hynny. Trowyd y maes parcio'n gapel a hwnnw dan ei sang, heb unrhyw le gwag o gwbl! Pawb yn eistedd yn eu ceir, wedi'u parcio'n drefnus gan barchu pellter cymdeithasol, yr injans wedi'u diffodd, y llywiau'n llonydd, y ffenestri ar agor - yn barod ar gyfer oedfa gyntaf Gofalaeth Y Priorddy, Cana a Bancyfelin yn y cnauld wrth i'r clo mawr graddol lacio! Yn sefyll o'n blaen - dros gant ohonom yn oedolion a phlant mewn ceir - nid mewn pulpud y tro hwn, ond ar gefn fan fach cefn agored, gydag uchelseinydd wrth law, roedd ein Gweinidog, y Parchedig Beti-Wyn James, yn barod i'n harwain!



Profiad cyffrous a bendithiol oedd cydganu, cydadrodd salm a chydweddio â'n cydaelodau am y tro cyntaf ers amser maith. Esboniodd ein Gweinidog yn ei myfyrdod fel nad oedd gan y Cristnogion cynnar adeilad eglwysig. Y nhw oedd yr Eglwys. A phobl sy'n gwneud eglwys ym mhob cyfnod, fel y dangosodd y gweithgarwch mawr a ddigwyddodd yn enw Iesu yn ystod y meudwyo gyda'n capeli i gyd ar gau. Bu cyfle gennym i feddwl yn greadigol ac yn ddyfeisgar a datblygu ffyrdd newydd o addoli, cynnal gwaith plant a ieuencid, bugeilio'n gilydd a chymdeithasu a helpu achosion da. Ac wrth estyn croeso i bawb yn ôl i'r capeli ym mis Medi, sydd bellach wedi'u diogelu'n llwyr, mynegodd ein Gweinidog y gobaith y bydd ein hawydd i arloesi yn enw Iesu'n parhau.

DIOLCH i Glwb y Cwins am ganiatâd i ddefnyddio'r mae parcio, i'r stiwardiaid am eu gwaith, i Iwan Evans am yr offer sain a'r gerddoriaeth, i Gwynfor Davies am y pamffledi, i Jac a'r teulu am fenthyg y fan a'n Gweinidog am ei myfyrdod. Taniwyd yr injans ac aethom adref yn drefnus a diogel yn ein ceir, yn llawen ac wedi'n hysbrydoli o'r newydd o wybod fod yna un arbennig iawn wrth y llyw i'n tywys ar ffordd bywyd.



EMLYN SCHIAVONE

PP: Rwyf ti'n aelod cymharol newydd yn y Priordy, Emlyn, ond mae cyswllt dy deulu â'r eglwys hon yn mynd yn ôl ymhell iawn. Elli di esbonio i ni sut?

ES: Wel, cartref fy nhad-cu oedd fferm o'r enw Cilfallen, rhwng Cwm-cou a Bryngwyn yn ardal Castellnewydd Emlyn. Roedd fy nhad-cu'n gefnder cyntaf i



E Keri Evans, un o gyn-weinidogion y Priordy, a'i frawd, y cerddor **D Emlyn Evans**. Cawson nhw eu codi ym Mhenralltwn, y fferm nesaf i Gilfallen. Cefais i fy enw ar ôl Emlyn a Ceri ydy enw fy mab hynaf! Mae cyswllt pellach â'r Priordy hefyd erbyn hyn gan fod Gwenan

(Schiavone), sef merch fy mrawd Toni, a'r plant - y gefeilliaid Lliwen Fflur a Gwern Ceian, a'r tripled Brychan Rheon, Gwenlli Marged a Nyfain Alaw yn aelodau yma.



PP: Mae'r cyfenw 'Schiavone' yn un diddorol. Beth yw'r tarddiad?

ES: Roedd fy nhad Vito yn enedigol o dde'r Eidal, sef pentre bach yn y mynyddoedd o'r enw **Montaguto**. Yn ystod y Rhyfel bu'n garcharor yng Ngwersyll Rhyfel Carcharorion Eidalaidd Henllan. Byddai'r carcharorion yn helpu ar y ffermydd cyfagos. Aeth fy nhad i Gilfallen a chwrdd ag Eluned - fy Mam. Mae'r gweddill yn hanes! Mae fferm Cilfallen yn parhau i fod yn nwylo'r teulu gyda llaw. Bu Mam yn cadw siop ddillad yn Adpar ac yna yn London House, Castellnewydd Emlyn, lle symudon ni fel teulu pan o'n i'n dair a hanner.



PP: Wyt ti'n dal cyswllt â'r Eidal o hyd?

ES: Ryn ni'n ceisio mynd i'r Eidal fel teulu bob blwyddyn. Ron ni i

fynd adeg y Pasg eleni, ond oherwydd y feirws, wrth gwrs, bu'n amhosibl. Ond byddwn ni'n mynd eto unwaith y daw haul ar fryn!

PP: Buest ti yn y coleg yn Newcastle ac mae lle cynnes i'r Geordies yn dy galon!

ES: *Oes yn wir. Ar ôl cael cymhwyster i fod yn athro aethon ni fel teulu bach i Newcastle upon Tyne am flwyddyn. Wnes i raddio gyda B.Phil. o'r Brifysgol. Fy mhrif diwtor oedd gŵr o'r enw Haydn Davies Jones - Cymro o Benrhiwceiber. Daethom yn ffrindiau agos dros y blynyddoedd a gofynnodd ei wraig, Elinor - yn dod o'r Bala - i fi ddarllen darn o'i hoff gerdd yn ei angladd, sef Ynys Afallon gan T Gwynn Jones. Rwy'n dal i gadw llygad ar bob un o ganlyniadau Tîm Pêl-droed Newcastle - Y Piod!*



PP: Rwy'ti wedi treulio blynyddoedd lawer yn y byd addysg ym maes anghenion addysgol arbennig. Elli di esbonio'n fyr i ni beth yn union oedd dy waith?

ES: *Yn y lle cyntaf gweithiais i gydag oedolion digartref yn Llundain, nifer ohonyn nhw'n dioddef o anhwylder ysbryd ac afiechyd meddwl. Fy swydd gyntaf yng Nghaerfyrddin oedd dysgu plant gydag anawsterau emosiynol a chymdeithasol a gofalu amdanynt. Ar ôl deng mlynedd bues i'n arwain uned newydd yn Llanelli i addysgu disgyblion oedd wedi cael eu heithrio o ysgolion uwchradd yn y dre. Paratiodd hynny'r ffordd i mi weithio fel rheolwr yn yr Adran Addysg i gefnogi disgyblion gydag amrywiaeth o anghenion yn y brif ffrwd neu unedau ac ysgolion arbennig a hefyd eu rhieni a'r ysgolion eu hunain wrth gwrs.*

PP: Wyt ti'n credu bod plant a phobl ifainc ag anghenion addysgol arbennig yn cael digon o chwarae teg yn ein cymdeithas ni heddiw?

ES: *Ar un adeg roedd yna dueddiad i gadw'r plant a'r bobl ifainc hyn ar wahân i'w cyfoedion ond dros y blynyddoedd cafodd nifer helaeth ohonyn nhw eu cynnwys yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd ble bydden nhw'n mynd fel arfer. Mae hynny'n fanteisiol iddyn nhw ac yn eu paratoi'n well i fod yn rhan allweddol o'r gymuned.*

PP: Tybed sut gallwn ni yn yr eglwys helpu'r bobl hyn?

ES: *Yn sicr drwy fod yn agored a chroesawu pawb mewn ffordd*

bositif a chreadigol.

PP: *Rwy'ti'n aelod o Gyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin, yn cynrychioli ward Gorllewn Caerfyrddin. Wyt ti'n mwynhau'r gwaith a pham?*

ES: *Rwy'n mwynhau'n arbennig yr elfen gymunedol a rhoi cyngor a help i breswylwyr y ward. Mae cyfrifoldebau ychwanegol gyda fi am Addysg a Gwasanaethau Plant, Iechyd a Gofal a'r Panel Heddlu a Throseddu. Rwyf hefyd yn falch o fod yn Gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Parc Waun Dew, yn llywodraethwr yn Ysgol y Dderwen, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Oriel Myrddin, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Teuluol Caerfyrddin, Cadeirydd Grŵp Dementia Caerfyrddin a'r Cylch ac aelod o bwyllgorau Llyfrau Llafar Cymru, Dr Mz, Hosbis Tŷ Cymorth, ac yn un o Ymddiriedolwyr Eiriolaeth Gorllewin Cymru. Mae llawer o gyfarfodydd ar hyn o bryd yn ystod y pandemig yn cael eu cynnal drwy gyfrwng digidol.*

PP: *Wel, mae digon ar dy blât, mae'n amlwg. Rwy'ti'n hoff iawn o chwaraeon hefyd, Emlyn. Pa rai sy'n mynd â dy fryd?*



ES: *Pêl-droed oedd fy mhrif ddiddordeb am nifer o flynyddoedd ond am y deng mlynedd diwethaf rwyf wedi bod yn gwylio Rhys y mab ifanca'n chwarae rygbi. Mae wedi chwarae dros sawl clwb ond gyda Nantgaredig mae e ar hyn o bryd.*

PP: *Ryn ni'n gwybod bod sawl haearn yn y tân gennynt ond mae bywyd teulu'n bwysig i ti hefyd.*

ES: *Ydy'n wir. Mae Tina'r wraig a finne wedi bod yn ffodus iawn i fagu pump o blant sef Ceri, Aled, Rhys, Siân a Sara. Maen nhw'n byw yng Nghaerfyrddin, Pontyclun, Cefneithin, Caerdydd a Bryste. Ryn ni hefyd yn falch iawn o fod yn dad-cu a mam-gu i Max Luca, Harrison a Nico.*

PP: *Ac os oes cyfnod i ymlacio'n llwyr, sut wyt ti'n gwneud hynny?!*

ES: *Rwy'n hoff iawn o gerdded, beicio, darllen a gwrando ar fiwsig. Hefyd, rwy'n aelod o Gôr Meibion Caerfyrddin, Cylch Cinio Caerfyrddin, Grŵp Cerdded Myrddin, Tîm Pel-droed Cerdded Caerfyrddin a Goleuadau Nos Caerfyrddin.*

PP: Cyn gorffen Emlyn, elli di esbonio beth wyt ti'n ei wneud gyda Goleuadau Nos Caerfyrddin?

ES: *Enw ar Dîm Cynnal Strydoedd y Dre ydy Goleuadau Nos Caerfyrddin. Mae'n cynnig help llaw i bobl ifainc sy'n dymuno hynny ar Nosweithiau*

Sadwrn rhwng 11 yr hwyr a 3 y bore.

Gwirfoddolwyr ydyn ni ac rydym ni'n cydweithio â'r heddlu. Fel y gwelwch oddi wrth y llun rydym ni'n cynnig dŵr i'r bobl ifainc



ac esgidiau fflip-fflop i'r merched. Mae'n waith gwerth ei wneud ac yn rhoi boddhad mawr ond yn golygu colli tipyn o gwsg! Tim bychan ydyn ni ac mae eisiau gwaed newydd arnon ni, Ar hyn o bryd rydym ni'n cael ychydig o seibiant oherwydd Covid-19.

Diolch yn fawr iawn i ti Emlyn am ateb y cwestiynau a phob dymuniad da i ti a'r teulu i'r dyfodol.

YN DYMUNO CYFAMODI?

**DENNIS JONES
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**

Croeso i chi gysylltu ag e!




AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)



**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**

TUDALEN BLAEN

**Rheswm David Lewis dros ddewis yr emyn *lesu*
*lesu rwyf ti'n ddigon....***



Tua deng mlynedd yn ôl bellach cefais y cyfle i ymweld ag India yn rhan o gynllun cyfnewid gyda'r mudiad Rotari. Y flwyddyn gynt roedd rhyw ddwsin o Rotariaid o India wedi talu ymweliad â De Cymru ac yna aeth saith ohonom yn ôl gan ymweld â rhanbarthau gogleddol India gan gynnwys Mwmbai a thalaith Rajasthan yn bennaf.

Roeddem yn aros yng nghartref aelodau Rotari o'r gwahanol ranbarthau a sylweddoli'n fuan iawn fod aelodau'r mudiad yn India'n bobl gyfoethog iawn – gwŷr busnes yn bennaf ac yn byw mewn tai anferth fel rhai o'r Maharajas gynt. Roedd y croeso'n gynnes iawn ym mhobman a rhaglen wedi'i threfnu ar ein cyfer i weld ysgolion, ysbytai newydd, gweithiau dur yn ogystal â safleoedd byd enwog fel y Taj Mahal.

Fel gwlad a thros biliwn o boblogaeth mae yna lawer o dlodi i'w weld ond mae yna gyfoeth mawr yn ogystal ac wrth ryfeddu at rai o'r adeiladau ysbennnydd a geir ar draws y wlad daeth geiriau cofiadwy un o emynau William Williams Pantycelyn i'm meddwl: *lesu, lesu, 'rwyf ti'n ddigon..., mwy trysorau sy'n dy enw na thrysorau'r India i gyd..*



Yn nyddau Pantycelyn roedd pawb o'i gyfoedion yn gyfarwydd â'r East India Company a'r holl gyfoeth a ddaeth i Brydain fel canolbwynt yr Ymerodraeth Brydeinig.


Ond i ddod yn ôl at fy newis o emyn. Fel y gwyddys, Pantycelyn yw un o'n hoff emynwyr ni'r Cymry. Anaml iawn y cawn wasanaeth heb ganu un o'i emynau o leiaf ac fe'u

clywn hefyd mewn cymanfaoedd yn ogystal ag ar y cae rygbi rhyngwladol. Addas felly oedd i'r emyn ddod i'r meddwl wrth deithio yn India a sylweddoli sut oedd cyfoeth y wlad yn ymddangos i Bantycelyn. Erbyn heddiw mae'r rhod wedi troi ac un o gwmnïau mawrion India, sef Tata, sy'n berchen ar Gwmni Dur De Cymru ym Mhort Talbot ac eraill ar draws Prydain.

Yn ddiweddar gwrandewais ar raglen ar fywyd u'n o'n tenoriaid cyfoes, sef Gwyn Hughes Jones yn cael ei holi gan y digrifwr Tudur Owen ac i orffen y rhaglen dewisodd yr emyn *lesu, lesu, 'rwyf ti'n ddigon*


Fel y gwyddom mae emynau Pantycelyn yn cynnwys cyfoeth o gymariaethau trawiadol sy'n glynu yn y cof a'r isymwybod a phan glywais yr emyn hwn yn cael ei ganu gan Gwyn Hughes Jones mewn modd mor angerddol roedd yn rhaid i mi'i ddewis.

Y PLANT YM MWYNHAU GWEITHGARWCH YR YSGOL SUL AR LEIN



Ifanc@Priordy

Helo bawb! Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel yng nghanol yr hen gyfnod rhyfedd hwn!



beibl.net i Bobl Ifanc

Daeth y fersiwn newydd cyffrous hwn o'r Beibl o'r wasg dros yr haf. Beibl sydd wedi ei ddylunio gyda bobl ifanc, i bobl ifanc, ar gael yn Gymraeg gan ddefnyddio testun poblogaidd Beibl.net.

Pobl ifanc sydd wedi ein cynorthwyo i roi'r Beibl newydd yma at ei gilydd ac mae'n cynnwys:

- dolenni i fideos (sydd ar gael ar YouTube) sy'n dadbacio themâu o'r Beibl
- cannoedd o elfennau rhyngweithiol drwy'r Beibl i gyd sy'n eich annog i gloddio'n ddyfnach
- gofod gwag er mwyn ysgrifennu nodiadau, dŵdlo a thynnu llun



- cyflwyniad un dudalen i bob llyfr yn y Beibl, sy'n esbonio am beth mae'n sôn a sut mae'n ffitio i mewn i'r stori fawr
- 32 tudalen lliw o bethau allweddol i'w dysgu am y Beibl
- Help gyda phynciau anodd a gofod i gadw nodiadau personol

Edrych, Meddwl, Dysgu, Lliwio, Gweithredu, Creu.

Dyma Feibl sy'n helpu pobl ifanc i ganfod eu hymatebion eu hunain i neges oesol y Beibl mewn ffordd sy'n berthnasol i'w bywydau.



Ailagor y capel

Byddwn yn ôl yn y Capel fore Sul, 13 Medi! Hwre! Gwasanaeth i bawb o bob oed. Dim Ysgol Sul am y tro ond fe fydd pob gwasanaeth yn addas ar gyfer y teulu cyfan. Falle bydd rhaid i chi eistedd mewn seddau gwahanol - hyd yn oed ar y llofft! Methu aros i'ch gweld chi i gyd.

Pob lwc... i bawb ar gychwyn tymor newydd yr ysgol.

Tan hynny, twdlw, Beti-Wyn x

RHODDION APÊL Y MIS (GORFFENNAF) AR GYFER
Y BANC BWYD



**LLYTHYR O DDIOLCH
A DDEBYNIWYD GAN
FANC BWYD CAERFYRDDIN**



Annwyl Beti-Wyn ac Aelodau

Capeli'r Priordy, Cana a Bancyfelin

**Rydyn ni'n ysgrifennu atoch i fynegi'n diolch didwyll i chi
am eich rhodd i'r Banc Bwyd ym mis Gorffennaf.**


**Fel Banc Bwyd, rydyn ni'n ddibynnol iawn ar garedigrwydd
ein cymuned leol i'n galluogi i ddarparu'n gwasanaeth. Yn
syml, heb roddion rheolaidd gan aelodau'r cyhoedd, fyddai'r
Banc Bwyd ddim yn gallu gweithredu. Yn arbennig yn ystod
cyfnodau o argyfwng fel nawr mae rhoddion yn fwy
hanfodol nag arfer.**

**Mae'r gwirfoddolwyr a'r staff yma yn y Banc Bwyd i gyd yn
gwerthfawrogi'n fawr y casgliad o fwyd a gyflwynwyd i'n
hystordy sy'n cyfateb i 383.71cg (846 pwys).**

**Diolch i chi am ein galluogi i gefnogi aelodau mwyaf bregus
ac agored i risg ein cymuned.**

Tîm y Banc Bwyd Caerfyrddin

***COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS
AR GYFER EU GOSOD YN Y BLYCHAU YN EIN CAPEL
UNWAITH Y DAW CYFLE***



TREM YN ÔL I FIS MEDI'R GORFFENNOL

250 mlynedd yn ôl

George Whitefield

Ganed George Whitefield (neu Whitfield), y diwygiwr Methodistaidd o fri.yng Nghaerloyw 16 Rhagfyr 1714. Dyma'r gŵr a gynorthwyodd i ledaenu'r deffroad yn Lloegr a'r Diwygiad Mawr yn nhrefedigaethau America yn y ddeunawfed ganrif a'r gŵr hefyd a deithiodd fwyaf yn ei gyfnod yn pregethu'r Gair. Cymraes oedd ei wraig, Elizabeth Burnell James o'r Fenni, a bu'r briodas yng Eglwys Martin Sant, Caerffili. Bu gwahaniaeth barn rhwng Whitefield a John Wesley, arweinydd mawr




Methodistaidd arall, ar fater o athrawiaeth. Roedd Whitefield yn Galfin a Wesley'n cofleidio'r gred Arminiaidd. Cymerodd y diwygwyr Cymreig, dan ddylanwad Howell Harris, blaid Whitefield ac felly Calfinaidd fu Methodistiaeth yng Nghymru. Roedd Whitefield yn bresennol yn sasiwn unedig gyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru a Lloegr ym Mlas Watford, Caerffili ym mis Ionawr 1743. Bu'r cyfarfod yn un pwysig gan i'r dychweledigion benderfynu aros o fewn yr Eglwys Sefydledig. Yn llawer diweddarach ym 1811, yng nghyfnod Thomas Charles, y cymerwyd y cam o ordeinio gweinidogion a thrwy hynny droi cefn ar yr Eglwys Sefydledig. Ym 1749 daeth Whitefield yn gaplan i Selina, Iarlles Huntingdon, yr unig ferch i gymryd rhan weithredol ac annibynnol yn y Diwygiad Methodistaidd. A phan sefydlodd Selina, a gafodd ei throï i Galfiniaeth, goleg diwinyddol yn Nhrefeca ym 1768, Whitefield draddododd y bregeth. Mae cyswllt pwysig arall rhwng Whitefield a Chymru - ac â Chaerfyrddin yn wir, gan i bregethu'r diwygiwr mawr yn ein tref arwain at dröedigaeth Peter Williams. Gwyddom yn dda fel y bu bri mawr ar Feibl Peter Williams yn ein gwlad yn ddiweddarach ac am y cyswllt rhwng Peter Williams a Chapel Heol Dŵr. Bu farw Whitefield yn Newburyport, Massachussets ar **30 Medi 1770**, dau gant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, ac mae wedi'i gladdu yno dan bulpud y First Presbyterian Church.

Ar Nos Sul, 13 Tachwedd 2014, cynhaliwyd oedfa ar y cyd â'r Tabernacl yn y Priordy i ddwyn i gof ei fywyd a'i waith. Arweiniwyd ein hoedfa gan Peter Hughes Griffiths a chymerwyd rhan gan Nansi Hayes a Cenwyn Rees (Y Priordy) a Delyth Williams a Margaret Williams (Y Tabernacl). Roedd Eira Phillips wrth yr organ a gofalodd Sulwyn Thomas am y testun PwyntPwer.

200 mlynedd yn ôl

Evan Jones (Ieuan Gwynedd)

Fe'i ganed yn ardal Rhydymain ym Meirionnydd ar **5 Medi 1820**, sef deucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Bregus fu'i iechyd o'r dechrau. Dysgodd ei fam iddo ddarllen ar yr aelwyd a thyfodd yn ŵr ifanc gwybodus a diwylliedig. Bu'n gweithio fel bancer am gyfnod ac yna'n cadw ysgol cyn paratoi ar gyfer y weinidogaeth a'i oredinio'n weinidog yng Nghapel Annibynnol Saron, Tredegyr ym 1845. Priododd yn yr un flwyddyn ond bu farw plentyn iddo'n fuan wedi'i eni ac yna'r fam ym 1847. Daeth yn adnabyddus am ei safiad yn amddiffyn enw da'r Cymry yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad damniol *Brad y Llyfrau Gleision* ym 1847. Bu'n rymus yn amddiffyn Anghydfurfiaeth a moes y Cymry, yn enwedig y gwragedd, a'r iaith Gymraeg. Bu'n rhaid iddo ymddeol fel gweinidog yn Nhredegyr ar ddiwedd 1847 ar dir iechyd. Treuliodd gyfnod wedyn ym maes newyddiadura. Bu'n golygu'r *Adolygydd*, cylchgrawn enwadol yr Annibynwyr. Sefydlodd hefyd *Y Gymraes* ym 1850, y cylchgrawn cyntaf i ferched yn Gymraeg. Bu farw'n ŵr ifanc iawn yn 32 oed ar 23 Chwefror 1852 yn ei gartref yng Nghaerdydd a'i gladdu ym mynwent Capel y Groes-wen, ger Caerffili ble codwyd beddfaen iddo gan ferched Cymru sy'n cynnwys hir a thoddaid o waith Gwilym Hiraethog. Ysgrifennwyd cofiant iddo'n ddiweddarach gan Cadwaladr Tawelfryn Thomas, un o gyn-weinidogion Y Groes-wen a hen dad-cu'r newyddiadurwr Vaughan Roderick.



20 mlynedd yn ôl.....


Cofio'r rhai a gollwyd

Plwyf San Pedr, Caerfyrddin
The Parish of St. Peter's Carmarthen



OWAIN GLYN DWR
600th Anniversary,
&
Service to remember the lives lost by the people of Wales
in conflicts over the past 1000 years.

600 Mlyneddiant,
A
Gwasanaeth Coffa i'r bywydau a gollwyd gan genedl y
Cymry mewn gwrthdrawiadau dros y fil o flynyddoedd
diwethaf.



Sunday, 17th
September 2000
2.30 pm

Dydd Sul,
17eg Medi 2000
2.30 y prynhawn

Cynhaliwyd gwasanaeth coffa arbennig yn Eglwys San Pedr ar **Ddydd Sul 17 Medi 2000** - adeg 600 mlyneddiant dechrau Gwrthryfel Owain Glyndŵr ym 1400 - i'r bywydau a gollwyd gan genedl y Cymru mewn gwrthdrawiadau dros y fil o flynyddoedd diwethaf.

Traddodwyd yr anerchiad gan y Dr Ioan Mathews, Maer Tref Caerfyrddin ar y pryd. Cymerwyd rhan hefyd gan y Canon Randolph Thomas, Y Parchedig Daryl Gibbs a'r Parchedig Leigh Richardson.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 30 Medi 2020 am 7

Cawn benderfynu yn nes at y dyddiad ai cyfarfod wyneb yn wyneb neu gyfarfod rhithiol (drwy zoom) fyddai orau.

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda


Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com

Papur Priordy'n cofio.....

HARRI WEBB

1920-1994



FE'I GANED i deulu dosbarth gweithiol mewn tŷ yn Sgeti lle roedd ei rieni'n lletya ar 7 Medi 1920, sef can mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Roedd ei deulu'n hannu o Fro Gŵyr. Pan oedd Harry (a newidiodd i Harri yn ddiweddarach) bron yn ddwy oed ymgartrefodd y teulu yn Sandfields, Abertawe. Fe oedd y disgybl cyntaf yn Ysgol Uwchradd Glan-y-môr (nad yw'n bodoli erbyn hyn) i ennill ysgoloriaeth i Rydychen - i Goleg Magdalen i astudio ieithoedd gan arbenigo mewn Ffrangeg a Sbaeneg.

Treuliodd rhwng 1941-6 yn y Llynges. Gwasanaethodd fel cyfieithydd, yn cynnwys gwaith gyda'r Ffrancod Rhydd yn ardal Môr y Canoldir, gyda chyfnodau yn Algeria a Phalesteina, ac ar faes y gad yng Ngogledd yr Iwerydd - profiad a adawodd ei ôl arno. Cafodd ei ddadfyddino yn Largs yn yr Alban lle bu'n crwydro am ychydig heb unrhyw gyfeiriad personol. Daeth ar draws gwaith Hugh MacDiarmid, llenor, newyddiadurwr a ffigur gwleidyddol a thyfodd y gŵr hwn yn ddylanwad mawr arno ac yn arwr mawr iddo.

Ar ôl dychwelyd i Gymru y dechreuodd ddysgu Cymraeg. Treuliodd gyfnod yn gweithio gyda Keidrych Rhys, bardd a newyddiadurwr a golygydd y cylchgrawn *Wales*, yn y *Druid Press* yng Nghaerfyrddin, ac yna bu am amser byr mewn llyfrgell yn Cheltenham. Symudodd wedyn i Ferthyr Tudful a dod yn llyfrgellydd yn Nowlais ac yn ddiweddarach yn Aberpennar gan fynd i fyw i Gwm Bach, ger Aberdâr.

Roedd yn genedlaetholwr pybyr a bu'n lladmerydd a phamffledwr cryf dros Blaid Cymru.

Roedd ei flynyddoedd olaf yn rhai digon unig a thrist. Torrodd ei iechyd wedi iddo ymddeol a bu'n gaeth i'r tŷ. Ond bu ffydd Anglicanaidd ei blentyndod yn gysur iddo, ynghyd â'i hoffter mawr o sinema Americanaidd y 1940au. Parhaodd hefyd i ddarllen yn helaeth yn yr ieithoedd roedd wedi'u meistroli. Treuliodd ei ddyddiau olaf mewn cartref nyrsio yn ei hoff Abertawe. Roedd yn ddibriod. Bu farw ar Nos Galan 1994. Fe'i claddwyd ym medd ei rieni ym mynwent Eglwys y Santes Fair ym Mhennar ar y Gŵyr.

Daeth i amlygrwydd fel bardd yn y 1960au. Cyfrannodd yn helaeth i *Poetry Wales* a chyhoeddodd gyfrolau fel *The Green Desert* (1969), *A Crown For Branwen* (1974), *Rampage and Revel* (1977) and *Poems and Points* (1983). Cyhoeddwyd ei *Collected Poems* dan olygyddiaeth ei gyfaill mawr Meic Stephens ym 1995. Ymysg ei gyhoeddiadau eraill mae'r pamffledi *Our National Anthem*, sef rhai sylwadau am *Hen wlad fy nhadau* a *Dic Penderyn and the Merthyr Rising of 1831*, lle mae'n adrodd stori'r gwrthryfel, *Tales from Wales*, sef addasiadau i blant o chwedlau'r Mabinogion, a nifer o sgriptiau teledu.

Mae'i waith creadigol yn wladgarol ei naws, ac yn rhoi llais i ogoniant, hynodrwydd, cyflwr a ffawd ein cenedl. Byddai'n ysgrifennu yn Saesneg yn bennaf ac un o'i gerddi mwyaf adnabyddus yw *When Gwynfor got in for Carmarthen*. Mae copi o'r gerdd hon wedi'i fframio ar ddesg waith ein Peter Hughes Griffiths ni yn ei gartref yn Llaindelyn!



Daeth un o'i gyfansoddiadau prinnach yn y Gymraeg, ei gerdd *Colli iaith*, a datganiad y gantores Heather Jones ohoni, yn rhan annatod o'r gynhysgaeth Gymraeg.

Yng nghystadleuaeth newydd Y Gân Bop Unigol a'r Grŵp Pop yn



Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfyrddin ym 1967. gosododd Peter Hughes Griffiths, y beirniad, ferch ysgol o Gaerdydd ar frig y cystadleuaeth unigol. Trefnodd gyfle iddi wedyn ganu mewn digwyddiad mewn pabell ar y maes a hefyd yn ddiweddarach yng Nglan-llyn. Peter a'i gosododd ar y cam cyntaf i enwogrwydd ac mae'r gweddill yn hanes. Ei henw? **Heather**

Jones. A go brin y cafwyd gwell datganiad ganddi yn ystod ei gyryfa na cherdd Harri Webb - *Colli iaith* -.ar y dôn a gyfansoddwyd yn arbennig ar ei chyfer gan y **Dr Meredydd Evans**. Does ryfedd fod llawer yn ystyried y cyfuniad nodedig hwn yn gân draddodiadol!



Er bod ymdeimlad o dristwch a cholled yn y gerdd mae'n diweddu ar nodyn gobeithiol am adfer treftadaeth, iaith a ffydd. Mae'r gobaith hwn

at ddant pob un ohonom y dyddiau cythryblus hyn, dybiwn i. Dyma eiriau'r gerdd i orffen a hefyd i gofio gyda diolch am Harri Webb:


Colli iaith a cholli urddas,
Colli awen, colli barddas;
Colli coron aur cymdeithas
Ac yn eu lle cael bratiaith fas.

Colli'r hen alawon persain,
Colli tannau'r delyn gywrain;
Colli'r corau diasbedain
Ac yn eu lle cael clebar brain.

Colli crefydd, colli enaid,
Colli ffydd yr hen wroniaid;
Colli popeth glân a thelaid
Ac yn eu lle cael baw a llaid.

Colli tir a cholli tyddyn,
Colli Elan a Thryweryn;
Colli Claerwen a Llanwddyn
A'r wlad i gyd dan ddŵr llyn.

Cael yn ôl o borth marwolaeth
Gân a ffydd a bri yr heniaith;
Cael yn ôl yr hen dreftadaeth
A Chymru'n dechrau ar ei hymdaith.



MUNUD I FEDDWL
Bydd y Gweinidog ar *Munud i Feddwl* ar
raglen y Post Cyntaf ar Radio Cymru
bob bore Mercher am 7.20
yn ystod mis Medi

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES


Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



CYFROL NEWYDD

Mae Menna Elfyn (gyda chymorth ffrind arall, Beth Thomas) wedi golygu a chyhoeddi casgliad o gerddi gan Elin ap Hywel o'r enw *Dal i Fod*.



Mae Elin sydd yn ei phumdegau, yn byw gyda dementia. Dywed Menna:

Mae'r sawl sy'n gyfarwydd â'i gwaith yn gwybod bod cerddi Elin yn llawn dychymyg effro, yn llawn syniadau annisgwyl a mynegiant ffres ond yn drist iawn dyw hi ddim yn gallu ysgrifennu rhagor. Proses chwerwfelys oedd hi felly i gasglu'r cerddi wrth i'w chof ballu ond wedi dweud hynny mae ei hiwmor yn aros a'i haddfwynder tyner.

Mae Elin wedi cyfieithu llawer iawn o waith Menna Elfyn sy'n ei disgrifio fel un o'r cyfieithwyr disgleiriaf gan fod ganddi afael arbennig ar y Gymraeg a'r Saesneg.

O ddiddordeb hefyd i ni yn y Priordy, mae Elin ap Hywel yn ferch i'r diweddar Barchedig Brifathro Eifion Powell a fu'n bennaeth ar Beti-Wyn pan oedd yn y coleg yn Aberystwyth.

Dymunwn yn dda i'r gyfrol ac i Elin i'r dyfodol.

Dal i fod – Cerddi Elin ap Hywel, gol. Menna Elfyn, Barddas £8.95.

**Western Mail - Journal
Sut Newyddion?**



**Y TYST
Sut Newyddion?**



50c y rhifyn!

Cyswllt: Sulwyn Thomas



Wrth geisio cael trefn ar yr holl lyfrau sydd o gwmpas y tŷ adeg cyfnod y caethiwed, daeth Peter ar draws y llyfryn diddorol *Dyfed Quiz*, gan y cyn lyfrgellydd *E Lloyd Hughes*, sef 500 o gwestiynau ac atebion am yr hen sir Dyfed. Cawsom ddeg cwestiwn ganddo yn Rhifyn Gorffennaf / Awst a dyma ddeg arall i'n herio'r tro hwn. Mae Peter hefyd yn ychwanegu ychydig sylwadau at ambell un o'r atebion sydd ar dudalen 33.

1	Yn ogystal â ffenest enwog Yr Orsedd yn y Llwyn Iorwg, ble yn nhref Caerfyrddin mae ffenest liw arall o waith John Petts?
2	Pa ddigwyddiad pwysig yn ymwneud â ffyrdd a theithio gymerodd le yng Nghaerfyrddin ar 4 Ebrill 1938?
3	Gosododd Esgob Llanelwy garreg sylfaen adeilad yn Heol y Prior Caerfyrddin ar 25 Mehefin 1889. Pa adeilad oedd hwn?
4	Beth sy'n arbennig ac yn wahanol ynglŷn â Chapel y Graig, Tre-lech a Chapel Henllan Amgoed?
5	Pa stryd yng Nghaerfyrddin a arferai gael ei galw'n 'Pig Street'?
6	Mae'r garreg uchaf ar Eglwys Abergwili o bwysigrwydd hanesyddol. Pam?
7	Yn ôl yr achaeolegwyr faint fedrai eistedd yn yr Amffitheatr Rhufeinig yn Heol y Prior?
8	Pryd cyhoeddwyd rhifyn cyntaf y <i>Carmarthen Journal</i> ?
9	Beth yw pellter Afon Tywi o'i tharddiad hyd y môr?
10	Pa gapel Annibynnol yn Sir Gaerfyrddin sydd â'r un enw â sefydliad mynachaid y Catholigion Rhufeinig?

CYFNOD CLO PRYSUR I HUW!

Bu Huw Jones, Cadeirydd Is-bwyllgor yr Adeiladau, yn ddyn prysur iawn yn ystod y cyfnod clo, heb fawr o gyfle i feudwyo, ddywedwn i!



Bu wrthi'n plastro a llenwi craciau mewn sawl man yn y capel ac yn glanhau'r ffenestri lliw yn ogystal â helpu'n Gweinidog i sicrhau fod yr adeilad yn

ddiogel ar gyfer yr ailagor.



Ar ben hyn oll, daeth llechen yn rhydd a glanio yn un o'r cafnau gan fygwth diogelwch. Ond cafodd Huw afael ar y Gwasanaeth Tân i symud y llechen a threfnu i gwmni ddod i'w gosod yn ôl yn ddiogel.

Diolch hefyd i'r Dr Glan Rees sy'n byw gyferbyn â'r

Priordy am dynnu'n sylw at y perygl yn y lle cyntaf ac i Gwynfor Davies am gysylltu â Huw!

Ac ar ein rhan ni oll diolch yn fawr iawn i ti Huw am dy holl waith,



ATEBION CWIS DYFED A GWYBODAETH BELLACH

1	Ffenestr Goffa i'r Dr Nest Crane yn Eglwys San Pedr. Dadorchuddiwyd yn Hydref 1987.
2	Daeth y Gweinidog Trafnidiaeth i'r dref i agor y bont newydd dros Afon Tywi.
3	Carreg sylfaen Eglwys Sant Ioan.
4	Mae'r grisiau sy'n arwain i'r galeri y tu allan i'r adeilad.
5	Stryd Morley. Newidiwyd yr enw am fod gweithdy Mr Morley, y saer dodrefn enwog, yno.
6	Dyma'r garreg y clymwyd yr Esgob William Ferrar wrthi pan gafodd ei losgi ym 1555 ar Sgwâr y Farchnad Caerfyrddin (Sgwâr Nott erbyn hyn).
7	5,000 o bobl.
9	3 Ionawr 1810. Y <i>Carmarthen Journal</i> yw'r papur lleol hynaf yng Nghymru.
9	68 milltir.
10	Capel y Priordy.

Sut gwnaethoch chi
tybed?



Diolch i Peter am y cwestiynau – a'r atebion!!

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Alison Parsons, Carys Morgans,
Elin Wyn a Huw Jones am y lluniau'r mis hwn.



MYFI YW GOLEUNI'R BYD

YM mhumdegau'r ganrif ddiwethaf byddwn yn cael cylchgrawn bychan bob mis trwy'r capel, sef *Trysorfa'r Plant*. Roedd ynddo storïau a phosau, ond yr hyn oedd yn hoelio fy sylw oedd clawr y cylchgrawn. Yr un clawr oedd iddo bob mis, sef darlun trawiadol mewn du a gwyn o waith William Holman Hunt (1827-1910).




Aeth hanner can mlynedd a mwy o flynyddoedd heibio ac erbyn hyn roedd cynnwys *Trysorfa'r Plant* wedi mynd yn angof llwyr ond roedd delwedd y clawr yn dal yn fyw yn y cof. Ymhen rhai blynyddoedd darganfyddais fod y darlun gwreiddiol i'w weld yng Ngholeg Keble, Rhydychen. Ac er i mi fod yn Rhydychen nifer o weithiau, penderfynais y byddwn yn mynd i Rydychen eto i weld y darlun.



Adeiladwyd capel bach wrth ochr prif gapel y coleg yn arbennig ar gyfer arddangos y darlun gwreiddiol. Yn 1853 y cwblhaodd Hunt y darlun er ei fod wedi cychwyn arno rai blynyddoedd ynghynt.

Darlun alegoriol mewn olew ar gynfas ydyw yn portreadu Crist yn paratoi i gnocio ar ddrws. Symbol yw'r drws o'r enaid dynol: nid oes bwlyn i'r drws, mae'r hoelion yn rhydllyd a'r cyfan wedi'i orchuddio gyda thyfiant sy'n golygu na ellir agor y drws o'r tu allan ac mae Crist yn gofyn am ganiatâd i'w agor. Mae arwyddocâd i'r ddau olau yn y darlun – mae golau'r llusern yn symbol o gydwybod a'r golau disglair o gwmpas pen Crist yn symbol bod diwrnod newydd ar fin gwawrio. Mae'r chwyn a'r ffrwythau sydd wedi disgyn ar y llawr yn cynrychioli'r hen ffordd o fyw – hydref bywyd. O dan y darlun ceir adnod o Lyfr y Datguddiad 3:20 – '*Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato a swperaf gyda ef, ac yntau gyda minnau*'. Ar wal dde'r capel ceir botwm i'w bwyso i oleuo'r darlun a rhaid pwyso'r botwm i allu gwerthfawrogi campwaith William Holman Hunt.

Fel ag y peintiodd Curnow Vosper ddarlun arall o Salem (a brynwyd yn lled ddiweddar gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru) ceir dau ddarlun arall o 'Myfi yw Goleuni'r Byd' gan Hunt, un fersiwn lai a beintwyd rhwng 1851 a 1856 sydd yn Oriel Gelf Dinas Manceinion a replica arall a beintwyd gan Hunt pan oedd yn 70 oed sydd yn Eglwys Gadeiriol St Paul's yn Llundain.



DIAU na fydd yn bosibl i nifer ohonoch ymweld â Rhydychen ar hyn o bryd, ond pan ddaw'r cyfle i'r myfyrwyr yn eich plith sy'n astudio yn un o golegau'r ddinas, ewch i Goleg Keble i werthfawrogi campwaith **William Holman Hunt**. Ni chewch eich siomi.

Diolch unwaith eto i Menna, Waunfawr, Aberystwyth, un o'n darllenwyr cyson, am yr erthygl ddiddorol hon



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Medi		Hydref	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Elinor Wyn Reynolds	Adrian Evans	Sulwyn Thomas	Philip Jones



DARLLENWYR



Medi	6		Hydref	4	
	13	Meleri LI O'Leary		11	Elis Jones
	20	Heledd Tomos		19	Lleucu Edwards
	27	Adrian Evans		25	Nansi Hayes




CYHOEDDWYR



Medi	Elinor W Reynolds	Hydref	Jayne Woods
------	-------------------	--------	-------------

CYFROLAU CYFOETHOG



UN YN ORMOD gol Angharad Grifffiths



*Profiadau unigolion a'u
perthynas ag alcohol.*

Y Lolfa £8.99

LLYFR GWYRDD YSTWYTH Eurig Salisbury

Ail gyfrol o gerddi'r bardd a'r
ysgolhaig poblogaidd

Barddas £8.95



DESG LYDAN Geraint Roberts

*Casgliad cyntaf o gerddi'r bardd
o Gwmffrwd, Caerfyrddin*

Barddas: £7

HEFYD
BEIBLCYMRAEG NEWYDD SBON I BOBL IFANC
Gweler Tudalenau'r Ifanc yn y Papur hwn



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w haelwydydd ac i'r rhai sy'n gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, sef Mwynwen Jones a Harri Evans. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Ein llongyfarchiadau mawr i Cara Rogers ar ennill gradd BSc mewn Daearyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth. A'r un llongyfarchiadau i'n pobl ifanc ar eu llwyddiant arbennig yn ennill tystysgrifau mewn ysgol a choleg yr haf hwn. Ein dymuniadau da i'r rhai sy'n ymuno â phrifysgolion ar ôl llwyddiant yn y Lefel A, sef Steffan Jones (Caerdydd - Mathemateg), Ifan Rogers (Rhydychen - Ffiseg), Iestyn O'Leary (Salford - Ôl-gynhyrchu), Sara LLwyd (Gorllewin Lloegr, Bryste - Ffasiwn a Thecstilïau), Lleucu Owen (Aberystwyth - Cymraeg Proffesiynol), Rhiannon Jones (Aberystwyth - Amaethyddiaeth a Busnes), ac i ddwy sy'n anelu am radd uwch, sef Elin Wyn (MA - Caerdydd) a Cara Rogers (MA - Caerdydd). A phob dymuniad da hefyd i'r rhai sy'n parhau i astudio yn yr ysgol ar ôl llwyddo ar Lefel UG, sef Catrin Owen, Lucy Jones, Hanna Medi Lewis, a Lefel TGAU, sef Gareth Jones, Gwenan Jones, Betsan Elias, Elain Owen, Gwenllian Howells a Carina Sidhu. Rydyn ni i gyd yn falch o bob un ohonoch.



Mae Walford Davies, tad ein Gweinidog, wedi symud i fyw i Gaerfyrddin erbyn hyn. Gobeithio y bydd yn ymgartrefu'n fuan ar ei aelwyd newydd yn Nhŷ Rhys ac anfonwn ein cofion cynnes iawn ato.



Bu'n Gweinidog yn cymryd rhan yng ngwasanaeth digidol pen-blwydd Eglwys Gymraeg Melbourne yn 167 oed ar Ddydd Sul 19 Gorffennaf 2020. Byddwch yn cofio iddi dreulio cyfnod yno y llynedd. Mae'r gwasanaeth cyflawn i'w weld ar Youtube drwy droi

at wefan yr eglwys. Bu hefyd ar y **Post Cyntaf** ar **Radio Cymru** yn rhan o'r drafodaeth ynghylch parhau i gadw'r ysbryd cymunedol yn fyw pan ddaw Covid-19 i ben. Yn ogystal, bu'n trafod addoli yn ystod y clo mawr ddwywaith yn ddiweddar - ar **Bwrw Golwg** ar **Radio Cymru** ac yna yng Nghyfarfod Zoom **Cristnogaeth 21** pan oedd yn un o'r panelwyr. Sefydlwyd Gwefan Cristnogaeth 21 yn 2007 er mwyn symbylu trafodaeth eang ar natur Cristnogaeth yn ein dyddiau ni.

Llongyfarchiadau mawr i Elinor Wyn Reynolds am i'w chyfrol **Gwirionedd (Gwasg y Bwthyn)** gael ei henwebu ar gyfer rhestr fer y categori Ffuglen Gymraeg yng Nghystadleuaeth **Llyfr y Flwyddyn**. Ardderchog yn wir! Mae **Llyfr y Flwyddyn** yn wobwr flynyddol sy'n dathlu llenorion talentog Cymreig sy'n rhagori mewn ffurfiau llenyddol amrywiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pedwar categori yn y ddwy iaith - Barddoniaeth, Ffuglen, Ffeithiol Greadigol ac am y tro cyntaf eleni Plant a Phobl Ifainc. Bu Elinor hefyd ar



Bwrw Golwg ar **Radio Cymru** yn trafod beth mae operâu sebon fel **Rownd a Rownd** a **Phobl y Cwm** yn eu cyflawni. A bu'r mab, Caspar Rolant, myfyriwr hanes ym Mhirifysgol Caer-wysg, yn rhannu'i brofiad o'r cyfnod clo yn **Y Tyst**.

Clywsom Rebecca Hayes yn adolygu'r papurau newydd ar **Raglen Aled Hughes** ar **Radio Cymru** sawl tro'n ddiweddar.

Profiad gwerth chweil oedd gwylio'r Dr Llinos Roberts yn archwilio stori Ffliw Sbaen 1918 – y pandemig mwyaf erioed i ysgubo trwy Gymru yn y rhaglen **Pandemig**



1918/2020 ar **S4C**. Roedd hon yn rhaglen ddogfen hynod o ddiddorol ac addysgiadol ac yn ein helpu i fynd afael â heriau heddiw sy'n codi o ganlyniad i'r feirws Covid-19. Bu Llinos hefyd yn un o'r panelwyr yn y rhaglen gyntaf yng nghyfres newydd **Pawb a'i Farn** ar **S4C** dan gadeiryddiaeth Betsan Powys. Covid-19 yng Nghymru oedd y testun trafod. Ac fe'i clywyd yn codi ymwybyddiaeth o'r clefyd psoriasis neu'r cengroen yn **Syrjeri Bore Cothi** ar **Radio Cymru**.

Bu Dewi Snelson ar **Heno** ar **S4C** yn sôn fel roedd Menter Iaith

Gorllewin Caerfyrddin wedi paratoi *Helpa Drysor* ar gyfer pedair tref i gadw'r plant yn brysur dros yr haf gan roi cyfle iddynt hefyd ddysgu mwy am eu hardaloedd.

Ac roedd Peter Hughes Griffiths yn un o gyflwynwyr **Munud i Feddwl** ar y **Post Cyntaf** ar **Radio Cymru** yn ystod mis Awst.

AC I GLOI, ein llongyfarchiadau mawr i Huw a Rhyswen Michael ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganed Hugo Jack Lloyd i Siân a James Fox ar 10 Gorffennaf 2020 yn Ysbyty Chelsea a Westminster, Llundain, a brawd bach newydd i Annabelle. Pob dymuniad da i'r teulu oddi wrth bawb ohonom yn y Priordy.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n
Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Angharad (Dr) a leuan Wyn a'r plant ar golli mam-gu leuan Wyn a hen fam-gu Greta a Miriam, aelodau yn ein Hysgol Sul, ar 30 Mehefin 2020, sef Daisy Jones, Cynwyl Elfed. Roedd yn weddw i Percy Jones, sef brawd John Jones, tad y Dr Mair Walker, gynt o'r Priordy. Meddylwn am y teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Ein cydymdeimlad hefyd ag Ann Griffiths ac Ivor Evans ar golli modryb iddynt, sef Valmai Jacob, gynt o Rydaman, ar 4 Gorffennaf 2020. Ein cofion at y teulu cyfan yn eu hiraeth.

CWLWM

Papur Bro Caerfyrddin

Bydd Rhifyn Hydref ar gael ar Ddydd Sadwrn 3 Hydref
2020

Mae croeso i chi ddanfôn newyddion neu lun ar gyfer
y papur

cwlwm@btinternet.com



Y SULLIADUR



Medi	6	Bore	Oedfa Gymun Ddigidol gyda'n Gweinidog	
	13	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	20	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog <i>Ein rhoddion at y Genhadaeth (mewn amlen gyda'ch rhif a'ch enw ar y blaen) i'w gosod yn y blwch a fydd ar gael</i>	
	27	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Hydref	4	Bore	Oedfa Deulu ar Wyl ein Diolchgarwch gyda'n Gweinidog	
	11	Bore	Oedfa Deulu yng ngofal yr Aelodau	
	18	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	25	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul ar hyn o bryd.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau.

COVID-19



Gair byr i ddweud bod ein Gweinidog a'r Swyddogion mewn cyswllt rheolaidd â'i gilydd ac yn monitro'n ofalus unrhyw ddatblygiadau parthed sefyllfa'r Capeli a Covid-19. Mae'r Gweinidog hefyd mewn trafodaethau rheolaidd gydag Undeb yr Annibynwyr.



Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddatblygiadau drwy gyfrwng Tudalennau Gweplyfr y Priordy a Thrydar ac ati



BORE SUL 13 AWST

**COFIWCH GYRRAEDD YR OEDFA
MEWN DA BRYD
OS GWELWCH YN DDA**